Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Lun, 11 Medi 2017 am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, James Bryan, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams, Geraint Woolford ac Ifan Wyn.

17. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ian Lewney (Cadeirydd). Enwebwyd ac etholwyd y Cynghorydd Ifan Wyn i gadeirio'r cyfarfod.

18. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

19. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017 yn gywir.

20. MATERION YN CODI

Gofynnwyd i'r Clerc wirio a gyflwynwyd cais cynllunio llawn gan asiant Vodafone ar gyfer y mast yn Fferm Golf Links.

21. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc am y penderfyniadau cynllunio a ganlyn a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych:

02/2017/0399 – Tu ôl i 15 Ffordd Edern, Rhuthun – Lleihau coron un goeden dderwen sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed – Caniatawyd

02/2017/0431 – Tir yn (rhan o ardd) Tan y Gerddi, Stryd Mwrog, Rhuthun – Adeiladu annedd sengl - Gwrthodwyd

02/2017/0563 – Woodstock, 2 Maes Cantaba, Rhuthun – Adeiladu estyniadau ac addasiadau i'r annedd – Gwrthodwyd

02/2017/0530 – Tesco Stores Ltd, Lôn Parcwr, Rhuthun – Addasiadau i'r fynedfa i'r safle, ynghyd â newidiau i gynllun gosod y maes parcio i wella cylchrediad a mynd i mewn/allan– Caniatawyd

02/2017/0558 – Tir yn Nhŷ Newydd, Llanfwrog, Rhuthun – Manylion am ymddangosiad, tirlunio, cynllun gosod a graddfa un annedd a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 1 caniatâd cynllunio amlinellol cyfeirnod 02/2016/0898 – Caniatawyd

02/2017/0438 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun – Dymchwel adeilad unllawr a gosod 20 caban gwely sengl / astudio am gyfnod dros dro o dair blynedd – Caniatawyd

02/2017/0606 – 40 Stryd y Rhos, Rhuthun – Isrannu'r annedd sy'n bodoli eisoes i ffurfio dau annedd gydag addasiadau allanol cysylltiedig – Caniatawyd

02/2017/0648 – 1 Min yr Afon, Rhuthun – Adeiladu estyniad i'r annedd – Caniatawyd

02/2017/0639 – 26 Stryd y Brython, Rhuthun – Gwaith ar ddwy lwyfen llydanddail, un sycamorwydden ac un goeden Celyn sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed – Caniatawyd

02/2017/0368 – Tir nesaf at Fferm y Castell, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Gwrthodwyd

02/2017/0687 – 34 Parc y Castell, Rhuthun – Adeiladu estyniadau ac addasiadau i'r annedd - Caniatawyd

22. CEISIADAU CYNLLUNIO

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ceisiadau am ganiatâd cynllunio a ganlyn a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i gael eu sylwadau.

PENDERFYNWYD*: nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn:*

02/2017/0794 – Woodstock, 2 Maes Cantaba, Rhuthun

Adeiladu estyniadau ac addasiadau i'r annedd.

02/2017/0845 – Fferm y Castell, Ffordd Llanfair, Rhuthun

Dymchwel adeiladau presennol a chodi un annedd ar wahân.

***PENDERFYNWYD**: bod pryderon ynghylch gorddatblygu'r safle a cholli gwagle amwynder yng nghyswllt y cais cynllunio isod. Roedd yr aelodau o blaid gwneud sylwadau i'r perwyl hyn. Gwnaeth y Cynghorydd Jim Bryan atal ei bleidlais.*

02/2017/0761 – 20 Stryd Clwyd, Rhuthun

Adeiladu tŷ haf/llety gorlenwi.

***PENDERFYNWYD**: gofyn am eglurhad a yw'r cyfan o'r datblygiad arfaethedig wedi'i gynnwys yn y safle datblygu, ac felly o fewn y ffin datblygu, gan fod y system tri tanc carthffosiaeth yn ymddangos fel petaent y tu allan i'r ffin datblygu yng nghyswllt y cais cynllunio isod.*

02/2017/0797 – Tir y tu ôl i Tŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun

Datblygu 0.09 hectar o dir trwy godi annedd, gosod tanc septig newydd a gwaith cysylltiedig (cais amlinellol gan gynnwys mynediad).

23. YMGYNGHORIAD AR ADRODDIAD ADOLYGU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL A'R CYTUNDEB CYFLENWI DRAFFT AR GYFER Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Ystyriodd yr aelodau'r dogfennau adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac awgrymwyd cael hwn fel eitem agenda yn y cyfarfod nesaf i gasglu barn aelodau cyn y dyddiad cau, sef dydd Gwener, 20 Hydref 2017.

***PENDERFYNWYD**: ystyried yr ymatebion i ddogfennau adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn y cyfarfod nesaf.*

24. HYSBYSIAD CAIS AM GYMERADWYO MATER YN UNOL Â GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU SI 2014 RHIF 2441

Nododd yr aelodau'r wybodaeth gan Innogy Renewables UK Ltd yng nghyswllt yr uchod.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaeth.*

25. CYFLE AM HYFFORDDIANT CYNLLUNIO

Bu'r aelodau'n ystyried y cynnig i fynd i hyfforddiant cynllunio ar 'Sut i fod yn fwy effeithiol wrth ymateb y geisiadau cynllunio' i'w gynnal gan Gymorth Cynllunio Cymru yng Nghanolfan Adnoddau Cymuned Acton, Wrecsam, ddydd Iau, 28 Medi, 6.30pm – 9.00pm ar gost o £35.00 yr un.

***PENDERFYNWYD**: cysylltu gyda Chadeirydd y Pwyllgor i holi a oedd yn dymuno mynd i'r digwyddiad hyfforddiant.*

26. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 9 Hydref 2017, am 6:45p.m.*